General Medical Council

Regulating doctors
Ensuring good medical practice

Cais am dystiolaeth ynghylch rolau a chyfrifoldebau meddygon ym maes amddiffyn plant

Gorffennaf i Fedi 2010

Crynodeb

Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn gofyn am eich profiadau a'ch safbwyntiau chi ynghylch rolau a chyfrifoldebau meddygon ym maes gwaith sy'n ymwneud ag amddiffyn plant. Y cais am dystiolaeth yw'r cam cyntaf mewn proses i ddatblygu arweiniad newydd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) ar gyfer yr holl feddygon sy'n gweithio yn y maes cymhleth a heriol hwn.

Bydd y cais am dystiolaeth yn cychwyn ar ddydd Gwener 30 Gorffennaf ac yn dod i ben ar ddydd Gwener 24 Medi 2010. Mae'n agored i unrhyw un sy'n dymuno ymateb.

Cefndir

Mae CMC yn datblygu arweiniad newydd i feddygon er mwyn eu helpu i fodloni'r safonau o ran y perfformiad a'r ymddygiad proffesiynol y bydd CMC yn ei ddisgwyl ganddynt pan fydd eu gwaith yn ymwneud â diogelu plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae CMC wedi sefydlu gweithgor a fydd yn casglu tystiolaeth am rolau a chyfrifoldebau meddygon ym maes gwaith amddiffyn plant, ac a fydd yn gwneud argymhellion ynghylch yr arweiniad y dylai CMC ei gyhoeddi.

Bydd yr arweiniad newydd yn ymhelaethu ar y cyngor yr ydym yn ei roi yn ein harweiniad craidd i feddygon, *Arfer Meddygol Da,* a'i ddogfennau atodol.[1] Bydd yn hyrwyddo arfer da ac yn galluogi meddygon i weithio mewn ffordd a fydd yn rhoi hyder iddynt na fydd eu gweithredoedd yn destun cerydd gan CMC pan fyddant yn cydymffurfio gyda'r arweiniad. Bydd yr arweiniad newydd yn berthnasol i'r holl feddygon sy'n gweithio i ddiogelu plant, gan gynnwys er enghraifft, pediatryddion a meddygon teulu, a bydd ei gwmpas yn ymestyn ar draws y DU. Disgwyliwn gynnal ymgynghoriad cyhoeddus am yr arweiniad drafft tua canol 2011 a chyhoeddi'r arweiniad newydd ddiwedd 2011.

Mae'r arweiniad – a'n cais am dystiolaeth – yn canolbwyntio ar rolau a chyfrifoldebau meddygon sy'n ymwneud ag amddiffyn plant. Ond wrth baratoi'r arweiniad, mae'n hanfodol ein bod yn deall y sefyllfa bresennol o bersbectif yr holl rai sy'n gysylltiedig â'r maes gwaith hwn, gan gynnwys meddygon a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, gweithwyr cymdeithasol, yr heddlu, cyfreithwyr, plant a phobl ifanc, a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Rydym yn dymuno clywed wrth bobl y mae ganddynt ystod eang o gefndiroedd a phersbectifau, gan gynnwys er enghraifft, pobl o gefndiroedd Du a

---

[1] Mae arweiniad craidd CMC, *Arfer Meddygol Da,* yn nodi egwyddorion arfer da a'r safonau a ddisgwylir gan bob meddyg sydd wedi cofrestru gyda CMC. Ceir ystod o ddogfennau arweiniad manylach sy'n delio gyda phynciau penodol, sy'n ychwanegu at *Arfer Meddygol Da.* Mae'r dogfennau arweiniad sy'n berthnasol i feddygon sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yn cynnwys:

- *0-18 oed: arweiniad i bob meddyg*
- *Cyfrinachedd*
- *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd*
- *Gweithredu fel tyst arbenigol*

Mae modd i chi weld ein holl arweiniad trwy droi at dudalennau 'Guidance on good practice' ar wefan CMC sef www.gmc-uk.org/guidance/index.asp

lleiafrifoedd ethnig, pobl y mae ganddynt anableddau, cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Rydym yn dymuno clywed am yr hyn sy'n gweithio'n dda mewn sefyllfaoedd go iawn, yn ogystal ag unrhyw broblemau neu bryderon. Yn ogystal, rydym yn dymuno clywed am enghreifftiau o'ch profiadau chi pan fo modd.

Yr hyn nad yw'r cais am dystiolaeth yn ei gynnwys

Nid oes gan CMC bwerau i newid prosesau llys, gweithdrefnau awdurdodau lleol neu ddeddfwriaeth. Yn ogystal, nid yw cwmpas y prosiect hwn yn cynnwys gweithdrefnau mewnol CMC er mwyn delio gyda phryderon ynghylch addasrwydd meddygon unigol i wneud gwaith meddygol.

Ni fydd y prosiect hwn yn ystyried pryderon neu gwynion ynghylch meddygon unigol. Os ydych yn pryderu am feddyg, mae modd gweld cyngor am yr hyn i'w wneud trwy droi at ein gwefan sef www.gmc-uk.org/concerns/index.asp.

Dylech ystyried yn ofalus a oes angen cyflwyno gwybodaeth sy'n cynnwys manylion personol unigolion – gweler ein datganiad preifatrwydd ar dudalen 7 y ddogfen hon am ragor o wybodaeth.

Sut i ymateb

A fyddech gystal ag anfon eich ymateb atom erbyn **dydd Gwener 24 Medi 2010.**

Cynhelir y cais am dystiolaeth dros y we – mawr obeithiwn y bydd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cyflwyno'u hymatebion i'r cwestiynau trwy gyfrwng y tudalennau ymgynghori y mae modd troi atynt ar wefan ymgynghori CMC, https://gmc.e-consultation.net/econsult/default.aspx.

Neu, gallwch anfon eich sylwadau atom gan ddefnyddio'r dulliau canlynol –

> trwy eu hanfon mewn neges e-bost at standards.consult@gmc-uk.org, neu
>
> eu postio at Standards and Ethics Team, General Medical Council, Regent's Place, 350 Euston Road, London, NW1 3JN

Ni ddylai'ch ymateb i'r cwestiynau fod yn hirach na 2 dudalen o ran testun – uchafswm o 10,000 nod (gan gynnwys bylchau). Bydd hyn yn ein cynorthwyo i ddadansoddi'r ymatebion y byddwn yn eu cael. Ni ddylech anfon unrhyw ddeunyddiau ychwanegol atom, oherwydd y byddwn yn cysylltu â chi os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnom.

Mae fersiwn Cymraeg ar gael o'r ddogfen hon, gan gynnwys y cwestiynau ar gyfer y cais am dystiolaeth, ynghyd â fersiynau mewn ieithoedd eraill ac mewn ffurfiau amgen megis print mawr neu fersiwn sain. Os hoffech gael copi o'r ddogfen hon mewn iaith arall neu mewn ffurf amgen, ffoniwch ni ar 020 7189 5404 neu anfonwch e-bost atom (gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod) i drafod eich gofynion penodol yn fanylach.

Mae croeso i chi ddweud wrth eraill am y cais hwn am dystiolaeth os ydych o'r farn y byddai ganddynt ddiddordeb mewn ymateb efallai.

A fyddech gystal â darllen ein datganiad preifatrwydd ar dudalen 7 y ddogfen hon cyn cyflwyno'ch ymateb. Mae'n esbonio sut y byddwn yn prosesu'ch gwybodaeth, ac mae'n gofyn i chi ddweud wrthym os ydych yn dymuno i ni drin eich ymateb yn gyfrinachol.

Cwestiynau

Rydym wedi nodi pum cwestiwn y byddem yn dymuno clywed ymatebion amdanynt wrthych chi yn benodol. Mae croeso i chi roi eich safbwyntiau i ni am gymaint neu gyn lleied o'r cwestiynau ag yr ydych yn dymuno.

Hoffem glywed am eich profiadau chi, gan gofio y bydd yr arweiniad newydd yn canolbwyntio ar rôl meddygon, gan gynnwys eu perthnasoedd gyda gweithwyr proffesiynol eraill, asiantaethau, plant a'u teuluoedd.

Wrth ymateb i'r cwestiynau hyn, hoffem glywed am yr holl gamau o fewn y broses amddiffyn plant, o feddygon yn dynodi ac yn cymryd camau ynghylch pryderon bod plentyn mewn perygl o ddioddef niwed, neu y gallent fod mewn perygl o ddioddef niwed, ac ymlaen i'r cam o roi tystiolaeth mewn llys barn.

Caniatâd a chyfrinachedd

Rhaid i feddygon sy'n gweithio i ddiogelu plant sicrhau bod buddiannau ac anghenion y plentyn wrth wraidd yr hyn y maent yn ei wneud. Mae hyn yn golygu gwrando ar blant a rhoi gwybodaeth iddynt mewn ffordd y gallant ei deall; ac archwilio neu drin plant ar ôl sicrhau eu caniatâd, caniatâd y rhieni neu ganiatâd awdurdod cyfreithiol arall. Yn ogystal, gallai olygu meddygon yn rhannu gwybodaeth ynghylch y plentyn a'r teulu gydag asiantaethau eraill neu pan fyddant yn cyflawni rôl tyst sy'n rhoi tystiolaeth gerbron y llys er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer y teulu neu er mwyn diogelu plentyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod. Mewn amgylchiadau fel hyn, efallai y bydd gwrthdaro rhwng buddiannau'r plentyn a'r teulu.

C1. Pa broblemau yr ydych chi'n eu gweld mewn perthynas â chaniatâd a chyfrinachedd pan fydd meddygon yn gweithio gyda phlant a'u teuluoedd, pan geir pryderon amddiffyn plant? Os oes modd, dylech ddarparu enghreifftiau o arfer da, neu feysydd lle y mae'n gyffredin gweld problemau yn codi ynddynt.

Cofiwch gyfyngu'ch ymateb i 2 dudalen.

Perthnasoedd gyda rhieni,[2] gofalwyr a'r teulu ehangach

Rhaid i feddygon sicrhau bod y pwys pennaf yn cael ei roi ar ddiogelwch a lles plentyn, a bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i hyn dros ystyriaethau eraill. Ond dylech sicrhau hefyd bod aelodau o deulu'r plentyn yn cael eu trin gydag urddas a pharch, gan ystyried hawliau aelodau'r teulu, er enghraifft, i wneud penderfyniadau ynghylch eu bywydau a'u ffordd o fyw, a chynnig cymorth neu help ychwanegol y byddant ei angen efallai.

C2. A ydych yn cytuno gyda hyn? Os oes modd, dylech ddarparu enghreifftiau o amgylchiadau pan fo anghenion a hawliau plentyn a theulu wedi cael eu bodloni a'u parchu yng nghyd-destun achosion amddiffyn plant, neu achlysuron pan fo gwrthdaro wedi codi rhwng y rhain, a'r ffordd y gwnaeth meddygon reoli'r gwrthdaro hwn.

Cofiwch gyfyngu'ch ymateb i 2 dudalen

Meddygon yn gweithio mewn partneriaeth

Disgwylir i feddygon weithio fel rhan o dîm gyda gweithwyr iechyd proffesiynol eraill pan fyddant yn darparu triniaeth a gofal i blentyn neu berson ifanc. Disgwylir i feddygon gydweithredu gydag asiantaethau eraill, megis gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc a'r heddlu, pan fydd amheuaeth bod plentyn neu berson ifanc yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu pan fydd yn hysbys bod hyn yn digwydd. Yn ogystal, efallai y bydd gofyn i feddygon weithio gyda chydweithwyr pan fyddant yn cyflwyno tystiolaeth mewn llys barn, er enghraifft, pan fo'r llys yn gofyn i arbenigwyr ar gyfer yr holl bartïon mewn achos i roi cyngor i'r llys ynghylch materion y maent yn cytuno neu'n anghytuno yn eu cylch.

C3. Beth yw'ch safbwyntiau neu'ch profiadau chi ynghylch pa mor dda y mae meddygon yn gweithio gydag meddygon eraill, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau, pan geir posibilrwydd bod plentyn yn cael niwed?

Cofiwch gyfyngu'ch ymateb i 2 dudalen

C4. Yn eich profiad chi, pa ffactorau sy'n helpu neu sy'n rhwystro eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau unigolion o ran diogelu plant a phobl ifanc? Gallai hyn gynnwys er enghraifft, trefniadau gweithio lleol, ac fe allai fod yn berthnasol i feddygon sy'n

---

[2] Mae cyfeiriadau at 'Rieni' yn golygu unrhyw un sy'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant. Er enghraifft, os bydd plentyn yn 'derbyn gofal', bydd rhieni yn rhannu cyfrifoldeb rhiant gydag awdurdod lleol. Nid yw gofalwr maeth yn meddu ar gyfrifoldeb rhiant os lleolir plentyn gyda nhw dan drefniant maethu, ond byddant yn meddu ar gyfrifoldeb rhiant os ydynt yn warcheidwad arbennig plentyn neu os ydynt yn meddu ar orchymyn preswylio. Am fanylion pellach am y sawl sy'n gallu meddu ar gyfrifoldeb rhiant, trowch at atodiad 2 *0-18 oed: arweiniad i bob meddyg.* Mae modd i chi weld hwn trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance/ethical_guidance/children_guidance_appendix_2.asp

gweithio mewn gwahanol feysydd, neu'r ffordd y mae meddygon yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill.

Cofiwch gyfyngu'ch ymateb i 2 dudalen

Gwybodaeth, sgiliau a phrofiad meddygon

Mae arweiniad CMC yn mynnu bod meddygon yn diweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau, eu bod yn cydnabod ac yn gweithio o fewn cyfyngiadau eu cymhwystra, a'u bod yn ymgynghori gyda chydweithwyr ac yn cael cyngor ganddynt pan fo hynny'n briodol. Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i wybodaeth a sgiliau clinigol meddygon, ac i weithgareddau proffesiynol eraill, er enghraifft, gweithredu fel gweithiwr proffesiynol neu dyst arbenigol yn y llys teulu. Mae gan bob meddyg rhyw rôl o ran diogelu plant, ond mae rhai yn meddu ar wybodaeth a sgiliau arbenigol ac ychwanegol er mwyn cyflawni tasgau penodol ym maes amddiffyn plant.

C5. Pa hyfforddiant a chymorth arall y mae angen i feddygon ei gael er mwyn cyflawni eu rolau penodol ym maes amddiffyn plant, er enghraifft, wrth baratoi a hyfforddi er mwyn rhoi tystiolaeth gerbron y llys teulu? Os oes modd, dylech ddarparu enghreifftiau o'r adegau pan fydd meddygon yn cael (neu heb fod yn cael) hyfforddiant priodol neu gymorth arall.

Cofiwch gyfyngu'ch ymateb i 2 dudalen

Materion eraill o ddiddordeb

C6. A oes unrhyw beth arall yr hoffech i ni ei ystyried wrth benderfynu ar gwmpas a chynnwys yr arweiniad yr ydym yn ei roi i feddygon ynghylch materion amddiffyn plant? Er enghraifft:

a. y ffactorau sy'n effeithio ar barodrwydd meddygon i fynegi pryderon ynghylch amheuon bod plentyn yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu i weithredu fel tyst arbenigol neu broffesiynol.

b. Unrhyw fylchau neu faterion na cheir eglurder yn eu cylch yn yr arweiniad sy'n bodoli eisoes i feddygon ynghylch materion amddiffyn plant, gan CMC neu gyrff llywodraethol a phroffesiynol eraill.

Cofiwch gyfyngu'ch ymateb i 2 dudalen

Datganiad preifatrwydd

Darllenwch y datganiad preifatrwydd hwn cyn cyflwyno'ch ymateb.

Rhannu pryderon am weithiwr proffesiynol

Os byddwn yn cael gwybodaeth am feddyg neu weithiwr proffesiynol arall sy'n cyfleu pryderon am eu haddasrwydd i wneud gwaith meddygol, efallai y bydd angen i ni gymryd camau neu ddatgelu gwybodaeth berthnasol i gorff priodol.

Rhannu gwybodaeth y tu hwnt i gylch gwaith y gwaith hwn

Deallwn bod materion yn gorgyffwrdd ac efallai y bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth i ni am y cefndir, nad yw o fewn cylch gwaith y gwaith hwn yn uniongyrchol. Bydd unrhyw wybodaeth o'r fath a ddarparir yn y dystiolaeth yn cael ei choladu a'i hanfon ymlaen at y corff priodol, gan ddelio gydag unrhyw wybodaeth sensitif neu gyfrinachol mewn ffordd briodol. Gallai cyrff eraill gynnwys, er enghraifft, y Cyngor Cyfiawnder Teulu, yr Adran Addysg (a/neu gyrff llywodraethol ar draws y DU), neu reolyddion neu gyrff proffesiynol eraill.

Rhannu gwybodaeth sy'n deillio o achosion o fewn y llys teulu

Bydd angen i chi sicrhau caniatâd y llys er mwyn rhannu gwybodaeth neu ddatgelu unrhyw bapurau sy'n ymwneud ag achosion ynghylch plant a gynhaliwyd yn breifat. Dylech gysylltu â ni os bydd hyn yn cyfaddawdu'r wybodaeth yr ydych yn dymuno'i darparu mewn ffordd ddifrifol.

Rhyddid Gwybodaeth

Gallai'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn eich ymateb fod yn destun datgeliad dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n galluogi'r cyhoedd i droi at wybodaeth y mae CMC yn ei chadw. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd eich ymateb ar gael i'r cyhoedd, oherwydd y ceir eithriadau sy'n ymwneud â gwybodaeth a ddarparir yn gyfrinachol a gwybodaeth y mae Deddf Diogelu Data 1998 yn berthnasol iddi. Gallwch ofyn am gyfrinachedd trwy ddweud wrthym eich bod yn dymuno i ni drin eich ymateb yn gyfrinachol.

Dylech ddweud wrthym os ydych yn dymuno i ni drin eich ymateb yn gyfrinachol.

Diogelu Data

Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn cael ei storio a'i phrosesu gan CMC yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac fe'i defnyddir i ddadansoddi'r ymateb i'r cais am dystiolaeth. Ni fydd unrhyw adroddiadau a gyhoeddir gan ddefnyddio'r wybodaeth hon yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol adnabyddadwy. Efallai y byddwn yn darparu ymatebion dienw i'r cais am dystiolaeth i drydydd partïon at ddibenion sicrhau ansawdd neu brosiectau ymchwil cymeradwyedig o gael cais o'r fath.

Eich manylion

Yn eich ymateb, nodwch eich enw, eich sefydliad (os yw'n berthnasol), a'ch cyfeiriad.

Yn ogystal, byddem yn ddiolchgar pe bai modd i chi ateb y tri chwestiwn canlynol yn eich ymateb:

a. A fyddech yn dymuno i ni gysylltu â chi ynghylch ymgynghoriad cyhoeddus CMC am yr arweiniad newydd (disgwyliwn y bydd hyn yn digwydd yn ystod y gwanwyn a'r haf 2011)?

b. A ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad?

c. Os ydych yn ymateb fel unigolyn, pa un o'r categorïau canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?

i Meddyg

ii Myfyriwr meddygol

iii Aelod o'r cyhoedd neu glaf

iv Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall

v Gweithiwr cymdeithasol

vi Cyfreithiwr

vii Arall (nodwch y manylion)